YMWADIAD

Croeso i wefan Rees Astley. Credwn y bydd y wefan hon yn rhoi amrediad eang o gynnwys/gwybodaeth am gwmni Rees Astley. Fodd bynnag, gan fod sefyllfa pob unigolyn yn wahanol, ni ddylid dehongli unrhyw ddarn o'r wybodaeth a ddarperir yma yn gyngor cyfreithiol, neu'n ymwneud â threth, cynllunio ariannol neu'n gyngor proffesiynol arall.

Darperir yr wybodaeth ar y wefan "fel y mae" a heb unrhyw warant o unrhyw fath, boed yn glir neu'n ddealledig. Mae Rees Astley yn gwadu pob gwarant, boed yn glir neu'n ddealledig, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, warantau dealledig o farchnadwyedd ac addasrwydd i bwrpas penodol.

Ni fydd Rees Astley yn gyfrifol, ar unrhyw gyfrif, am unrhyw iawndal uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig, cysylltiedig neu ganlyniadol sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth ar y wefan hon. Eich cyfrifoldeb chi yw gwerthuso cywirdeb, cyfanrwydd a defnyddioldeb unrhyw farn, cyngor, gwasanaethau neu wybodaeth arall a ddarperir.

Nid oes unrhyw ddyletswydd ar Rees Astley i fonitro unrhyw drosglwyddiad a wneir i neu drwy unrhyw dudalen ar y wefan hon, neu unrhyw wefan sydd â dolen i neu o'r wefan hon. Fodd bynnag, ac er gwaethaf unrhyw ddatganiad i'r gwrthwyneb, mae gan Rees Astley yr hawl i fonitro trosglwyddiadau o'r fath ac i ddefnyddio neu ddatgelu gwybodaeth a gesglir o'r wefan hon.

Mae'r holl gynnwys, tudalennau, data a'r dyluniadau ar y wefan hon (ar wahân i enwau a logos Cwmnïau / Cymdeithasau sy'n eiddo i'r Cwmnïau / Cymdeithasau hynny'n unig) dan hawlfraint neu drwydded i Rees Astley Cyf a ni ellir eu copïo na'u hatgynhyrchu, yn gyfan neu'n rhannol, mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig penodol Rees Astley.

Bydd Rees Astley yn ymdrechu i roi mynediad di-baid i'r Wefan, ond gall mynediad i'r Wefan gael ei ohirio, ei gyfyngu neu ei derfynu ar unrhyw adeg.

Ni fydd Rees Astley yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys unrhyw wefannau eraill sydd â dolen i'r Wefan hon.